




*“Mae'r Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth wedi gweithio gyda ni mewn gwir bartneriaeth i gynllunio a threfnu dull cynaliadwy i hybu arfer awtistiaeth da a chyson ar draws ein hysgolion, lleoliadau a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol. Mae eu harbenigedd mewn awtistiaeth a'u parodrwydd i ddeall ein hanghenion yn llawn wedi bod yn amhrisiadwy.”*

*Dr Morwenna Wagstaff, Pennaeth Cynhwysiant, Sir Fynwy*

## Cyd-destun

- De Ddwyrain Cymru
- Poblogaeth awdurdod lleol c93,000, c15,000 poblogaeth dan 18 oed
- Ysgolion a gynhelir (c11k disgybl): 29 ysgol gynradd (yn cynnwys 2 cyfrwng Cymraeg), ysgol 3-19 oed a 3 ysgol uwchradd
- 43 lleoliad Blynyddoedd Cynnar



## Y briff

I gydnabod y nifer cynyddol o ddysgwyr awtistig o fewn eu system addysgol, mewn ysgolion prif ffrwd a hefyd Ganolfannau Adnoddau Arbenigol, roedd Cyngor Sir Fynwy eisiau comisiynu'r Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth (AET) i gynllunio a chyflenwi rhaglen gynaliadwy i wella addysg ar gyfer plant a phobl ifanc awtistig yn y sir.

Ffocws y prosiect oedd datblygu gweithlu medrus ac oedd yn cael ei gefnogi sydd â'r wybodaeth, sgiliau a hyder i weithio'n effeithiol gyda phob plentyn a pherson ifanc, yn cynnwys pobl ifanc awtistig.

## Y weledigaeth:

Bydd pob plentyn a pherson ifanc awtistig yn Sir Fynwy yn cael addysg gadarnhaol a chynhwysol sy'n cefnogi eu llesiant ac yn rhoi cyfle cyfartal.

Mae rhieni a gofalywyr pobl ifanc awtistig yn cael profiad cadarnhaol a chydweithiol o leoliadau addysg sy'n cefnogi ac yn gwella eu llesiant.

## Yr hyn a wnaethom

Rhoddodd AET gefnogaeth i Gyngor Sir Fynwy i sefydlu trefniadau llywodraethiant cadarn ar gyfer y prosiect ac yna gydweithio gyda nhw i gynllunio prosiect a fyddai'n sicrhau'r newid diwylliant a gwelliannau cynaliadwy sydd eu hangen i gyflawni eu gweledigaeth. Roedd y grŵp llywio yn cynnwys staff yr awdurdod lleol o addysg a gofal cymdeithasol, cynrychiolwyr rhieni a gofalwyr a staff addysgol o leoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd ac uwchradd a chanolfannau adnoddau arbenigol.

**Defnyddiodd AET eu harbenigedd a'u profiad i gefnogi cynllun prosiect oedd yn cynnwys:**



### Cryfhau llais pobl ifanc awtistig

Fe wnaethom gefnogi cynllunio a sefydlu paneli o bobl ifanc awtistig o ysgolion uwchradd Sir Fynwy, sydd wedi dylanwadu ar gynllun y prosiect a'r adnoddau hyfforddiant ac a fydd yn parhau i gael rôl tu hwnt i oes y prosiect.



### Uwchsgilio pellach ar y Canolfannau Adnoddau Arbenigol fel canolfannau rhagoriaeth ar gyfer awtistiaeth

Gan weithio gyda'n partneriaid, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (NAS), fe wnaethom gynnal asesiad o anghenion hyfforddi ac wedyn gynllunio a chyflwyno pecyn hyfforddi pwrpasol ar gyfer staff yn y Canolfannau Adnoddau Arbenigol.



### Creu model Hyrwyddwr Awtistiaeth sy'n ychwanegu galluedd ac yn hybu'r newid sydd ei hangen ar draws lleoliadau arbenigol a phrif ffrwd

Fe wnaethom gefnogi cynllunio'r model, y dull recriwtio a darparu deunyddiau pwrpasol ar gyfer eu sefydlu a'u hyfforddiant.



### Meithrin galluedd mewn lleoliadau prif ffrwd drwy ddatblygu a chyflwyno deunyddiau ac adnoddau hyfforddiant Sir Fynwy gan ddefnyddio dulliau yr AET

Fe wnaethom gomisiynu ein partneriaid ([ACER](#)) i ymgynghori ar y dull gorau o gyflwyno hyfforddiant mewn cyd-destun Cymreig, ac yna gynllunio adnoddau hyfforddi dwyieithog seiliedig ar dystiolaeth yn gyfer ar gyfer staff mewn lleoliadau addysg. Fe wnaethom wedyn gefnogi datblygu a sefydlu tîm hyfforddi AET Sir Fynwy i ymestyn y rhaglen.

## Llwyddiannau hyd yma

Caiff rhaglen AET Sir Fynwy ei lansio'n ffurfiol ym mis Medi 2024, ond hyd yma rydym wedi:



### Hyfforddiant ar gyfer Canolfannau Adnoddau Arbenigol

Cynllunio a chyflwyno hyfforddiant pwrpasol ar gyfer Canolfannau Adnoddau Arbenigol, yn cynnwys pedwar diwrnod llawn wyneb-i-wyneb a phedair sesiwn gyda'r nos ar bynciau y gwnaed cais amdanynt.



### Cefnogi sefydlu Paneli Arbenigwyr Ifanc

Mae gan bob ysgol uwchradd yn Sir Fynwy a'r ysgol 3-19 yn awr banel o bobl ifanc awtistig sydd wedi ymwneud â fideos hyfforddi, dylunio logo ac adborth parhaus.



### Recriwtio hyrwyddwyr

Cefnogi recriwtio 56 Hyrwyddwr Awtistiaeth ar draws y blynyddoedd cynnar, lleoliadau cynradd ac uwchradd, yn barod i ymwreiddio deunyddiau a dulliau AET.



### Datblygu adnoddau hyfforddi

Datblygu Rhaglen Datblygu Proffesiynol ar gyfer Cymru i'r Blynyddoedd Cynnar ac Ysgolion gyda mewnbwn ac ymgyfraniad gweithwyr proffesiynol a rhieni a gofalwyr o bob rhan o Gymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyflwyniadau hyfforddi, pecynnau cymorth ymarferol, fideos hyfforddi ac egwyddorion rhieni a gofalwyr, gyda phobl ifanc o Gymru a'u profiadau bywyd yn greiddiol. Dechreuwyd y gwaith o ddatblygu canllawiau geirfa yn y Gymraeg.



### Rheoli a throsolwg y prosiect

Rheolaeth prosiect manwl hirdymor a gwybodaeth arbenigol i gefnogi Cyngor Sir Fynwy wrth ddatblygu'r rhaglen a'r tîm cefnogi.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Sir Fynwy

Daeth yr AET â chyfoeth o brofiad, gwybodaeth a sgiliau nid dim ond ym maes arfer da ansawdd uchel, cyfoes a chanoli ar yr unigolion am awtistiaeth, ond hefyd am sut i ddatblygu, rheoli a sefydlu newid sefydliadol a diwylliannol.

Bu hon yn daith wirioneddol werth chweil i ni gyd yn Sir Fynwy, a rydym yn falch o'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni gyda'n gilydd, a bydd gwaddol hyn yn golygu model cynaliadwy ar gyfer plant awtistig.

Dr Morwenna Wagstaff, Pennaeth Cynhwysiant, Sir Fynwy

### Adborth ar sesiynau hyfforddiant cynnar yn defnyddio 'Gwneud synnwyr o awtistiaeth' AET Cymru:

**“Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn ac wedi'i gyflwyno'n dda”**

**“Fe wnaeth yr hyfforddiant fy helpu i ddeall awtistiaeth yn well a'r hyn y gallaf wneud yn fy swydd i gefnogi plant sydd ag awtistiaeth”**

- Roedd yr hyfforddiant yn addas ar gyfer system addysg Cymru – **97% yn cytuno**
- Mae gen i bellach lefel uwch o ddealltwriaeth o'r cryfderau a'r anghenion y gall plant a phobl awtistig fod â nhw – **96% yn cytuno**
- Rwy'n awr yn teimlo'n fwy hyderus yn cefnogi plant a phobl ifanc awtistig yn fy swydd – **95% yn cytuno**
- Mae gen i nawr ystod mwy helaeth o strategaethau i'w defnyddio i gefnogi plant a phobl ifanc awtistig – **89%**



## Case study: Monmouthshire County Council




*“The AET have worked in true partnership with us to design and set up a sustainable approach to drive forward consistent good autism practice across our schools, settings and Specialist Resource Bases. Their autism expertise and willingness to fully understand our needs has been invaluable.”*

*Dr Morwenna Wagstaff, Head of Inclusion, Monmouthshire County Council*

### Context

- South East Wales
- Local authority population c93,000, c15,000 under-18 population
- Maintained schools (c11k pupils): 29 primary schools (incl 2 Welsh-medium), a 3-19 school and 3 secondary schools
- 43 Early Years settings



### The brief

In recognition of the increasing numbers of autistic learners within their educational system, both in mainstream and Specialist Resource Bases (SRBs), Monmouthshire County Council (MCC) commissioned the AET to design and deliver a sustainable programme to improve education for autistic children and young people in the county.

The project focused on developing a skilled and supported education workforce that has the knowledge, skills and confidence to work effectively with all children and young people, including autistic young people.

### The vision

All autistic children and young people in Monmouthshire will experience a positive and inclusive education that supports their wellbeing and provides equality of opportunity.

The parents and carers of autistic children and young people have a positive and collaborative experience of education settings which supports and improves their wellbeing.



## Case study: Monmouthshire County Council

### What we did

AET supported MCC to establish robust project governance arrangements and then worked collaboratively with them to design a project which would deliver the culture change and sustainable improvements required to deliver their vision.

The steering group included local authority staff from education and social care, parent and carer representatives, and educational staff from early years, primary, secondary and Specialist Resource Bases (SRBs).

**AET drew on their expertise and experience to support a project design that included:**



#### Strengthening the voice of autistic young people

We supported the design and set up of panels of autistic young people from Monmouthshire's secondary schools, who have influenced the design of the project and the training resources and will have a continuing role beyond the life of the project.



#### Further upskilling the Specialist Resource Bases (SRBs) as centres of excellence for autism

Working with our partners, the National Autistic Society (NAS), we carried out a training needs assessments and then designed and delivered bespoke training package for staff in SRBs.



#### Creating an Autism Champion model which adds capacity and drives the change needed across specialist and mainstream settings

We supported the design of the model, the recruitment approach and provided bespoke materials for their induction and training.



#### Building capability in mainstream settings by developing and delivering Monmouthshire training materials and resources drawing on AET's approaches

We commissioned our partners ([ACER](#)) to consult on the best approach to delivering training in a Welsh-context, and then to design evidence-based, bilingual training resources specifically for Welsh staff working in education settings. We then supported the development and induction of a Monmouthshire AET training team to roll out the programme.

## Case study: Monmouthshire County Council

### Successes so far

The Monmouthshire AET programme will be formally launched in September 2024, but to date we have:



#### Training to Specialist Resource Bases (SRBs)

Designed and delivered bespoke training for SRBs, covering four full face-to-face days and four twilight sessions on requested topics.



#### Supported the set up of Young Expert Panels

Each Monmouthshire secondary and the 3-19 school now has a panel of autistic young people who have been involved in training videos, logo design and ongoing feedback.



#### Champions recruited

Supported the recruitment of 56 Autism Champions across early years, primary and secondary settings, ready to embed AET materials and approaches.



#### Development of training resources

Developed a Professional Development Programme for Wales for Early Years and Schools with input and involvement from professionals and parents and carers from across Wales. The programme includes training presentations, practical support packs, training videos and parent and carer principles, with Welsh young people and their lived experience at the heart.



#### Project management and oversight

Long-term in-depth project management and expert insight to support Monmouthshire CC in their development of the programme and supporting team.

## Case study: Monmouthshire County Council

*“The AET brought a wealth of experience, knowledge and skills, not just the area of high quality, up-to-date and person-centered good autism practice, but also around how to develop, manage and embed organisational and cultural change.*

*This has been a hugely rewarding journey for all of us in Monmouthshire, and we are proud of what we have achieved together, the legacy of which will mean a sustainable model for autistic children.”*

*Dr Morwenna Wagstaff, Head of Inclusion, Monmouthshire County Council*

### Feedback on early training sessions using AET Wales ‘Making sense of autism’ resources:

**“I thought the training was highly informative and well delivered”**

**“The training provided helped me to understand autism better and what I can do within my role to support autistic children and young people”**

- *The training was appropriate to the Welsh education system – **97% agree***
- *I now have a higher level of understanding of the strengths and needs that autistic children and young people may have – **96% agree***
- *I now feel more confident supporting autistic children and young people in my role – **95% agree***
- *I now have a more extensive range of strategies I can use to support autistic children and young people – **89%***

